



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Trefniadau Perfformiad Ysgol Interim Cyfnod Allweddol 4: Mesurau a Dadansoddiadau

Dogfen ganllaw i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a  
grwpiau rhanddeiliaid allweddol

## Canllawiau

Dogfen ganllaw rhif: 246/2019  
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

## Trefniadau Perfformiad Ysgol Interim Cyfnod Allweddol 4

### Cynulleidfa

Ysgolion uwchradd; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; consortia rhanbarthol; cynghorwyr herio; Estyn a grwpiau rhanddeiliaid eraill

### Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar Fesurau Perfformiad Interim Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys pa ddata a gaiff eu rhoi i ysgolion, disgwyliadau penodol o'r ffordd y dylai ysgolion ystyried deilliannau i grwpiau gwahanol o ddysgwyr a sut y bydd dadansoddi 'traeanau' yn gweithio.

### Camau i'w cymryd

Mae camau i'w cymryd gan ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a grwpiau rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r polisi ehangach a hefyd amcanion y cwricwlwm sy'n sail i'r mesurau. Dylai ysgolion fod yn gyfarwydd â'r dadansoddiadau a ddarperir i gefnogi hunanwerthuso cadarn a thrylwyr.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [ims@llyw.cymru](mailto:ims@llyw.cymru)



[@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

### Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-ysgolion>

# Cynnwys

<b>Rhagarweiniad</b>	<b>4</b>
<b>Mesurau Perfformiad Interim</b>	<b>7</b>
Egwyddorion sylfaenol	7
Y garfan sy'n cael ei mesur	7
Cymwysterau y gellir eu cynnwys mewn data am berfformiad	7
Proses o gysylltu gwerthoedd â chymwysterau	8
Rheolau Diystyru	9
Cofrestriadau Cynnar	9
Trosolwg o'r mesurau penodol	10
Mesur Capió 9 (interim)	11
Y mesur llythrennedd	12
Y mesur rhifedd	13
Y mesur gwyddoniaeth	13
Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru	14
<b>Dadansoddi a Chyhoeddi</b>	<b>15</b>
<b>Atodiad A: Methodoleg ar gyfer cyfrifo'r sgôr pwyntiau Capió 9 (interim)</b>	<b>21</b>
<b>Atodiad B: Cwestiynau Cyffredin</b>	<b>28</b>
<b>Atodiad C: Adnoddau Eraill</b>	<b>32</b>

## Rhagarweiniad

1. Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â nifer o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru. Tynnodd y canfyddiadau sylw at y ffaith bod y system bresennol a'i defnydd o fesurau perfformiad wedi arwain at lawer o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis:
  - culhau dewis cwricwlwm;
  - ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
  - y ffordd y caiff meincnodi ei ddefnyddio, sy'n creu cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach na'u hannog i gydweithio;
  - llwyth gwaith cynyddol a diangen ar athrawon ac eraill yn y system heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr;
  - cydgasglu data at ddibenion *atebolrwydd* er bod y broses honno wedi'i chynllunio at ddibenion *gwella*.
2. O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon croes o wahanol rannau o'r system ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig. Mae hyn yn aml wedi gwneud i ysgolion dynnu ffocws eu hymdrechion oddi ar ddysgu ac addysgu ac wedi ein symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfiaeth a biwrocratiaeth.

### Dyfodol mesurau perfformiad

3. Rydym yn datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn lle'r system atebolrwydd bresennol. Maent wedi'u llunio ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, gan roi ystyriaeth i ymchwil ryngwladol. Rydym wedi cymryd gofal i sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n datblygu.
4. Mae'r modd y bydd mesurau perfformiad, neu unrhyw fath o ddangosyddion sy'n rhoi gwybodaeth, yn cael eu defnyddio, a sut olwg fydd arnynt, yn cael ei adolygu'n llawn a byddant yn cael eu datblygu yn yr un modd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r system mesurau perfformiad gyfan, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio gwerthoedd perfformiad ar gyfer cymwysterau ar hyn o bryd.
5. Gall y mesurau fod yn feintiol ac yn seiliedig ar ddata ynghylch cyrhaeddiad, neu'n ansoddol, ond ni waeth pa fath o fesurau ydynt, byddant wedi'u cynllunio i'n helpu i gyrraedd ein nod, sef galluogi'r holl ddysgwyr i gyflawni eu potensial. Byddwn yn adolygu ac yn ystyried elfennau allweddol wrth inni symud ymlaen, gan gynnwys:
  - sut i rannu mesurau atebolrwydd a data ar gyfer hunanwerthuso;
  - sut i reoli llwyth gwaith athrawon wrth inni ddatblygu'r gwaith;
  - pennu unrhyw fesurau cynnydd â llinellau sylfaen dibynadwy;
  - rhoi ystyriaeth i werth mesurau ysbeidiol yn hytrach na mesurau diwedd gyrfa.
6. Hefyd, bydd y rôl o ran pennu targedau o fewn y trefniadau diwygiedig yn cael ei harchwilio.
7. Cyhoeddwyd trefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd) drafft i Gymru ym mis Ebrill er mwyn cefnogi ac annog gweithgarwch ymgysylltu yn ystod y camau nesaf.

8. Bydd y trefniadau newydd hyn yn gadarn, cydlynol a thryloyw. Byddant yn rhoi elfen drylwyr newydd i drefniadau, gyda disgwyl i ysgolion ysgwyddo mwy o atebolrwydd i sicrhau eu gwelliannau eu hunain. Rydym yn deall y bydd hyn yn gofyn am newidiadau sylweddol i ddiwylliant ac ymddygiad drwy'r system gyfan, ac nid oes disgwyl i'r newidiadau hyn gael eu gwneud ar unwaith. Fe fydd yna gyfnod pontio.
9. Bydd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd hyn yn helpu i sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd. Bydd yn cefnogi ein hamcan o godi safonau, lleihau'r bwloch cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg y gall y genedl fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd fod yn hyderus ynddi.

### Trefniadau interim

10. Fel rhan o'n taith tuag at y trefniadau newydd hyn, gwnaethom ymrwymo yn *Cenhadaeth ein Cenedl* i gyflwyno trefniadau gwerthuso trosiannol ar gyfer 2019 er mwyn cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion a chodi safonau ar gyfer pob dysgwr.
11. Ym mis Mai 2018, [cyhoeddodd](#) y Gweinidog Addysg y byddai'n cyflwyno cyfres o fesurau perfformiad interim ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a gafodd eu datblygu drwy gydweithio â phenaethiaid a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y mesurau newydd hyn, sy'n seiliedig ar sgoriau, yn cael gwared ar y pwyslais ar y mesurau Lefel 2 cynhwysol ar gyfer TGAU a'r ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng C a D sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r defnydd o fesurau a throthwyon yn y gorffennol.
12. Mae'n bwysig cofio mai trefniadau dros dro yn unig yw'r newidiadau hyn sy'n digwydd ar unwaith. Bydd darlun o ddatblygiadau yn y dyfodol wrth inni bontio rhwng y system bresennol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
13. Rydym yn sylweddoli na fydd y mesurau interim hyn yn newid ymddygiadau yn y system gyfan yn sylweddol. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i ysgolion fod yn destun craffu anghymesur yn seiliedig ar un neu ddau fesur yn unig wrth inni geisio symud at system sy'n gwerthfawrogi ystod ehangach o lawer o ffactorau wrth asesu effeithiolrwydd ysgolion o ran darparu ar gyfer anghenion dysgwyr unigol yn y ffordd orau. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gynorthwyo ysgolion i wneud penderfyniadau addas ar gyfer eu cwricwlwm er mwyn osgoi lleihau'r dewis i ddysgwyr.
14. Bwriedir i'r newidiadau interim hyn helpu i ehangu dewis i ddysgwyr a rhoi gwerth ar anghenion a chyflawniad unigolion.
15. Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio at ddiben penodol, sef casglu data mewn modd sy'n briodol i hunanwerthuso ac yn fan cychwyn ar gyfer dadansoddi a chynllunio. Felly, yn ôl eu cynllun, maent yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei gyfleu ac ni ddylid eu defnyddio ar eu pennau eu hunain neu allan o'u cyd-destun, na'u cyflwyno'n dystiolaeth o ba mor effeithiol y mae ysgol.
16. Mae'n bwysig i ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau a chonsortia ystyried ac ymgysylltu â'r bwriadau ehangach o ran polisi a'r cwricwlwm y mae mesurau

perfformiad yn seiliedig arnynt. Yn benodol, dylai ysgolion gofio am yr angen i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys.

17. Er bod y mesurau newydd yn llai rhagnodol o ran yr hyn a all gyfrif, er mwyn helpu ysgolion i gofrestru dysgwyr ar gyfer y cymwysterau mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion, erys cwricwlwm ysgolion / disgwyliaidau o ddarpariaeth o hyd.

18. Mae disgwyliaid y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio o leiaf:

- am gymhwyster iaith a llenyddiaeth yn y Gymraeg/Saesneg (bydd disgwyl i bob dysgwr astudio iaith Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf neu ail iaith, y mwyafrif i astudio llenyddiaeth Saesneg a'r mwyafrif o ddysgwyr sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf i astudio llenyddiaeth Cymraeg hefyd);
- TGAU mathemateg a TGAU mathemateg a rhifedd;
- tri chymhwyster TGAU gwyddoniaeth ar wahân neu TGAU dyfarniad dwbl.

19. Ni ddylid defnyddio'r mesurau perfformiad interim i gyfiawnhau rhoi'r gorau i TGAU mathemateg - rhifedd yn gyfan gwbl. Rydym hefyd yn pryderu am y risg y bydd ffocws rhai ysgolion o ran cofrestradau TGAU gwyddoniaeth yn gul. Dylai dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU ar wahân mewn bioleg, cemeg a ffiseg gael eu cofrestru ar gyfer pob un o'r tri chymhwyster fel arfer. Fel arall dylent fod yn astudio ar gyfer gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), neu gymhwyster TGAU cymhwysol (dyfarniad dwbl neu sengl), fel y bo'n briodol.

20. Mae'n rhaid i fudd dysgwyr bob amser fod yn brif ffactor mewn unrhyw benderfyniad ynghylch y cymwysterau a ddewisir ac ni ddylai newidiadau o ran mesurau perfformiad reoli dewisiadau dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn ceisio cynorthwyo ysgolion i gyflawni hyn. Bydd awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn gallu helpu ysgolion i wneud penderfyniadau ynghylch lle mae'n briodol i ddysgwr beidio ag astudio neu beidio â chael ei gofrestru ar gyfer arholiad yn y pynciau uchod.

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio i awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yr angen penodol i gynorthwyo, herio ac ymgysylltu â'u hysgolion ynghylch materion yn ymwneud â phenderfyniadau am gynnig dysgwyr am gymwysterau a gosod dysgwyr y tu allan i'w grŵp blwyddyn disgwylieidig wrth inni weithredu'r newidiadau hyn. Rydym hefyd wedi pwysleisio'r rhesymeg uchod o ran ystyried perfformiad ysgolion mewn perthynas ag ystod eang o ffactorau a defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yn rhan fach o hyn.

22. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dechrau ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau sy'n deillio o'r system ehangach o graffu ar berfformiad ysgolion, ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid tuag at newid y diwylliant sy'n canolbwyntio ar fesurau unigol y tu allan i'w cyd-destun.

23. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddiwygio'r gofynion statudol ar osod targedau i ysgolion er mwyn bod yn gyson â'r dull gweithredu hwn yng Nghyfnod Allweddol 4 am y cyfnod interim hwn. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael [yma](#).

# Mesurau Perfformiad Interim

## Egwyddorion sylfaenol

### Y garfan sy'n cael ei mesur

24. Y garfan sydd i'w mesur fydd disgyblion Blwyddyn 11 o hyd.

**Nodyn:** Rydym wrthi'n ystyried cywirdeb data'r grŵp blwyddyn a gyflwynwyd inni ac wedi cyflwyno gwiriadau system ychwanegol er mwyn sicrhau bod y data hwn yn ddibynadwy. Rydym hefyd yn ystyried pa gamau eraill a allai fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n briodol y caiff dysgwyr eu rhoi y tu allan i'w grŵp blwyddyn disgwylidig.

25. Bydd yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 ar gofrestr yr ysgol yn cael eu cynnwys yn y data am ganlyniadau yn Cyfnod Allweddol 4 (CA4), ac eithrio'r rheiny y nodwyd eu bod:

- yn newydd i'r system addysg sy'n seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf
- neu'r rheiny o'r system addysg sy'n seiliedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg ond sydd â chymwysterau nad ydynt yn cael eu cyfrif mewn data am berfformiad yn CA4 yng Nghymru.

26. Gall disgyblion o'r fath gael eu heithrio o'r ffigurau, fodd bynnag, bydd hyn yn golygu eu bod yn cael eu heithrio o'r **holl** fesurau data am berfformiad yn CA4 ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol.

### Cymwysterau y gellir eu cynnwys mewn data am berfformiad

27. Bydd yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu'u dynodi i'w darparu yng Nghymru yn parhau i gael eu cyfrif tuag at fesurau perfformiad CA4, ac eithrio lle nodir gofynion penodol o ran pwnc, ar yr amod eu bod:

- yn gymhwyster hyd at Lefel 3, gan gynnwys y lefel honno;
- wedi'u cymeradwyo/eu dynodi i'w darparu i ddysgwyr cyn-16 ac yn ymddangos felly ar Gymwysterau yng Nghymru ([QiW](#));
- nad ydynt yn gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru – bydd y cymwysterau hyn yn parhau i gael eu heithrio o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, yn unol â'r argymhelliad a wnaed yn yr [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru 2012](#). Serch hynny, gall y cymwysterau hyn fod yn ddewis priodol i rai dysgwyr cyn-16.

28. Dim ond dyfarniad cyflawn cyntaf cymhwyster y gellir ei gynnwys yn y mesurau, heb ystyried a fydd disgybl yn ennill gradd well am yr un cymhwyster wedi hynny.

29. Mae rhai o'r mesurau dros dro yn gofyn neu'n cynnwys slotiau lle mae angen ennill cymhwyster penodol neu un o nifer bach o gymwysterau penodol. Mae'r cymwysterau hyn am:

- lythrennedd;
  - rhifedd;
  - gwyddoniaeth;
  - Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
30. Mae'r holl gymwysterau a all gyfrannu at y mesurau hyn wedi'u nodi'n glir ar gronfa ddata ar-lein QiW. Mae canllawiau QiW i ddefnyddwyr ar wybodaeth am berfformiad gan Lywodraeth Cymru ar gael yn <https://llyw.cymru/cymwysterau-yng-nghymru-canllaw-i-ddefnyddwyr>.
31. Bydd graddau dyfarniad dwbl TGAU gwyddoniaeth yn cael eu trin yn ddyfarniadau sengl TGAU ar wahân at ddibenion cyfrifo mesurau perfformiad. Gweler [Mesur Capió 9 \(interim\)](#) a'r [Y mesur gwyddoniaeth](#) isod i gael rhagor o fanylion.
32. Bydd dyfarniadau a enillwyd gan ddisgybl mewn blwyddyn flaenorol yn parhau i gael eu cyfrif pan fydd y disgybl yn cyrraedd y garfan Blwyddyn 11 sy'n cael ei mesur.

### **Proses o gysylltu gwerthoedd â chymwysterau**

33. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r paramedrau a'r gwerthoedd sylfaenol presennol a bennwyd o ran lefel y cymhwyster, oriau dysgu dan arweiniad a'r strwythurau graddio.
34. Yn CA4, caiff gwerthoedd cyfraniadol y cymwysterau hyn eu nodi yn nhermau cymwysterau cyfatebol i TGAU/TAG Safon Uwch a phwyntiau perfformiad fel bod modd cymharu cyrhaeddiad cymwysterau o feintiau a strwythurau graddio gwahanol ar lefelau gwahanol o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).
35. Mae maint cymhwyster yn seiliedig ar faint o amser ar gyfartaledd mae'n cymryd i addysgu'r cymhwyster, a ddynodir fel gwerth oriau dysgu dan arweiniad, a'i lefel ar FfCChC.
36. Dynodir pwyntiau perfformiad i gymhwyster ar sail ei faint, ei lefel ar FfCChC a'r radd a gafwyd.
37. Yn CA4, caiff sgoriau pwyntiau mesurau perfformiad ar gyfer cymwysterau cymwys eu cyfrifo fel a ganlyn:

#### ***cyfateb i TGAU o ran maint x pwyntiau sylfaen***

Mae'r tablau cymhwyster cyfateb, tablau pwyntiau sylfaen a rhagor o fanylion am y rhesymeg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd perfformiad ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

38. Mae pwyntiau perfformiad ar gyfer pob cymhwyster ar gronfa ddata ar-lein QiW o gymwysterau o dan 'Gwybodaeth am Berfformiad a'r Cwricwlwm'. Bydd y gwerthoedd a ddefnyddir i gyfrifo mesurau yn parhau i gael eu pennu o ddyddiad dyfarnu cymhwyster.



**Nodyn:** Y cyfraniad mwyaf y gall unrhyw gymhwyster unigol nad yw'n gymhwyster TGAU (ac eithrio Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch) ei wneud tuag at unrhyw un o'r mesurau fydd yr hyn sy'n cyfateb i ddau gymhwyster TGAU o hyd.

## Rheolau Diystyru

39. Defnyddir rheolau diystyru i benderfynu pryd y bydd gwerthoedd perfformiad cymhwyster yn cael eu diystyru yn erbyn gwerthoedd cymhwyster arall. Mae'r rheolau diystyru yn ymwneud yn bennaf â sicrhau, lle mae dysgwr wedi sefyll mwy nag un cymhwyster yn yr un maes pwnc, y bydd y tablau perfformiad ond yn rhoi credyd unwaith am addysgu un cwrs astudio.
40. Mae'r system ddiystyru ond yn effeithio ar y broses o gyfrifo mesurau perfformiad ysgol. Nid yw'n effeithio ar y cymwysterau a enillwyd gan ddysgwyr.
41. Mae nifer o resymau addysgol dilys pam y gallai dysgwyr sefyll cymwysterau sy'n destun y rheolau diystyru. Er enghraifft, er mwyn cydnabod eu cynnydd drwy gwrs astudio, fel sefyll Safon UG cyn symud ymlaen i sefyll Safon Uwch yn yr un pwnc.
42. Bydd dau gymhwyster yn destun y rheolau diystyru os ydynt yn perthyn i'r un teulu diystyru a bod ganddynt yr un cod diystyru. Mae'r teulu diystyru yn disgrifio natur y cymhwyster; er enghraifft, a yw'n gymhwyster TGAU neu'n gymhwyster galwedigaethol.
43. Mae codau diystyru ar gyfer cymwysterau unigol ar gael yn [www.qiw.wales](http://www.qiw.wales) o dan 'Gwybodaeth am Berfformiad a'r Cwricwlwm'.

**Nodyn:** Lle mae gan gymwysterau sawl opsiwn o ran maes llafur, efallai na fydd y gwahanol opsiynau yn destun rheolau diystyru - mae codau diystyru ar gyfer amrywiadau unigol meysydd llafur ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/cymwysterau-sawl-amrywiaeth-o-ran-meysydd-llafur-chodau-diystyru?>.


## Cofrestriadau Cynnar

44. Ar 16 Hydref 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg newid i'r polisi ar adrodd ar berfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â sefyll arholiadau'n gynnar o 2019 ymlaen. Gallwch ddarllen y datganiad ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
45. O haf 2019 ymlaen, dim ond canlyniad y tro cyntaf y dyfernir cymhwyster llawn (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) i ddysgwr fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad.
46. Mae'r newid hwn yn annog ysgolion i gofrestru dysgwyr pan fyddant yn hyderus bod y dysgwr yn barod i gael ei ganlyniad gorau posibl. Nid yw'n rhwystro dysgwr rhag ailsefyll pe byddai'r ysgol neu'r dysgwr yn dymuno gwneud hynny er mwyn gwella'r canlyniad, ond ni fydd canlyniad yr arholiad a ailsefir yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad yr ysgol, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn well.

## Trosolwg o'r mesurau penodol

47. Rydym yn symud i ffwrdd o'r mesurau trothwy. Mae'r mesurau perfformiad interim yn cynnwys pum prif fesur, y mae pob un ohonynt yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau:

1. Mesur Capio 9 (interim)
2. Mesur llythrennedd
3. Mesur rhifedd
4. Mesur gwyddoniaeth
5. Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru



48. Byddwn yn adrodd ynghylch y mesurau dros dro newydd yn hydref 2019 o ran disgyblion a fydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn yr haf blaenorol, h.y. Blwyddyn 11 sy'n gorffen yn haf 2019.

## Mesur Capió 9 (interim)

49. Mae'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio yn cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer y dyfarniadau gorau i bob dysgwr unigol yn y garfan, wedi'i chapio ar faint penodedig o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol. Fel gyda'r fersiwn flaenorol o fesur Capió 9, mae fersiwn y mesurau interim wedi'i chapio ar gyfanswm maint naw TGAU neu gymwysterau cyfatebol (y cyfeirir atynt fel 'slotiau' drwy'r ddogfen gyfan):

- Mae angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol ar **dri** o'r naw slot er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau at y mesur. Mae pob un o'r slotiau hyn yn cyfateb i un cymhwyster TGAU ac maent yn nodi gofynion o ran TGAU mewn llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig ac yn cymryd y radd orau a enillwyd ar gyfer pob slot o'r cymwysterau perthnasol.
- Bydd y **chwe** slot arall yn adlewyrchu'r pwyntiau a roddir i chwe chymhwyster arall gorau'r dysgwr (heb gynnwys y dyfarniadau hynny sy'n cyfrannu at y tri slot pwnc-benodol a ddisgrifir uchod).

50. Mae hyn yn wahanol i'r fersiwn flaenorol o fesur Capió 9, a oedd yn cynnwys pum slot penodol: un ar gyfer Cymraeg/Saesneg (cymwysterau iaith yn unig o 2017), un ar gyfer mathemateg - rhifedd, un ar gyfer mathemateg a dau ar gyfer gwyddoniaeth. Roedd hyn yn golygu mai dim ond pedwar slot oedd ar agor i ddewis lleol. Roedd natur benodol y mesur wedi arwain at gulhau dewisiadau cwricwlwm mewn rhai ysgolion, nad oedd er budd pennaf dysgwyr unigol.

51. Mae Tabl 1 isod yn dangos cyfansoddiad fersiwn y mesurau interim o fesur Capió 9.

**Tabl 1:** Trosolwg o Sgôr Pwyntiau Capió 9 (interim)

Rhif*	Slot	Gofyniad	
1	<b>Slot llythrennedd</b>	Gofynion pwnc-benodol** (TGAU yn unig)	<u>Canlyniad gorau dyfarniad cyntaf:</u> Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg
2	<b>Slot rhifedd</b>		<u>Canlyniad gorau dyfarniad cyntaf:</u> Mathemateg - rhifedd neu Fathemateg
3	<b>Slot gwyddoniaeth</b>		<u>Canlyniad gorau dyfarniad cyntaf</u> (wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i ddyfarniadau yng nghyfes CBAC o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr): bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl)
4	<b>'Chwe chymwyster arall'</b> (Cymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth eu maint)	Y chwe dyfarniad cymhwyster arall gorau***	Gall pob cymhwyster sydd wedi cael ei gymeradwyo/dynodi i'w gyflwyno cyn 16 oed yng Nghymru gyfrif, yn amodol ar y rheolau diystyru arferol a heb gynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
5			Gall cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru gyfrif tuag at un o'r slotiau hyn lle mae'n un o ddyfarniadau gorau eraill y dysgwr.
6			
7			
8			
9			

\*Mae pob slot yn gyfwerth ag un TGAU. Mae slotiau llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth hefyd yn fesurau perfformiad ar wahân.

*\*\*Lle gall dyfarniadau lluosog gyfrif, defnyddir y radd orau a enillwyd gan ddysgwyr. Dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau. Rhoddir enghraifft yn [Atodiad A](#).  
\*\*\* Nid oes unrhyw gap ar gyfanswm maint y cymwysterau nad ydynt yn rhai TGAU sy'n cyfrannu at slotiau'r 'Chwech arall'.*

52. Mae fersiwn y mesurau interim o fesur Capió 9 yn sicrhau'r hyblygrwydd o ran beth sy'n cyfrif er mwyn helpu ysgolion i gofrestru dysgwyr am y cymwysterau mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion, ac yn cadw ffocws angenrheidiol ar ddeilliannau llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth ar yr un pryd.
53. Dylai natur anghyfyngedig y chwe elfen arall helpu i annog y broses o gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.
54. Er bod cap ar yr uchafswm maint y gall unrhyw gymhwyster unigol ei gyfrannu (heblaw am gymwysterau UG ac Uwch), nid oes unrhyw gap ar gyfanswm maint y cymwysterau nad ydynt yn rhai TGAU a all gyfrannu tuag at 'chwe slot arall' (nad ydynt yn bwnc-benodol) y fersiwn interim o'r mesur Capió 9. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, rydym yn disgwyl gweld ysgolion yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n briodol i anghenion dysgwyr. Rydym wedi sôn wrth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol am bwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a'u cefnogi ar y mater hwn.
55. Bydd cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cyfrif tuag at 'chwe slot arall' mesur Capió 9 lle mae'n un o ganlyniadau gorau dysgwr nad ydynt eisoes yn cyfrif tuag at un o'r tri slot pwnc-benodol.
56. Bydd graddau TGAU gwyddoniaeth - dyfarniad dwbl yn cael eu trin yn ddyfarniadau sengl TGAU ar wahân at ddibenion cyfrifo mesurau perfformiad. Os mai canlyniad gorau disgybl am wyddoniaeth yw'r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl a dyfarnwyd graddau nesaf at ei gilydd, y radd orau o'r ddwy radd fydd yn cyfrif tuag at y slot sy'n benodol i wyddoniaeth. Gall yr isaf o'r ddwy radd gyfrif o hyd tuag at un o 'chwe slot arall' nad ydynt yn bwnc-benodol y mesur Capió 9 os yw'n un o ganlyniadau gorau'r dysgwr nad yw eisoes yn cyfrif tuag at slot pwnc-benodol. Gweler yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

## Y mesur llythrennedd

57. Yn ogystal â bod yn un o slotiau craidd mesur Capió 9, mae llythrennedd hefyd yn fesur perfformiad ar wahân. Mae'n gyfwerth ag un TGAU.
58. Mae'r mesur llythrennedd yn cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer pob dysgwr unigol yn y garfan, gan ddefnyddio'r radd orau o blith unrhyw un o'r cymwysterau TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a ddyfarnwyd i ddysgwyr:
- TGAU Saesneg iaith;
  - TGAU Gymraeg iaith (iaith gyntaf yn unig);
  - TGAU Llenyddiaeth Saesneg;
  - TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.
59. Gallwch hefyd gadarnhau pa gymwysterau sy'n cyfrif tuag at y mesur llythrennedd ar gronfa ddata QiW o gymwysterau yn [www.qiw.wales](http://www.qiw.wales).

**Nodyn:** Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o'r cymwysterau sy'n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau. Gweler yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

## Y mesur rhifedd

60. Yn ogystal â bod yn un o slotiau craidd y mesur Capió 9, mae rhifedd hefyd yn fesur perfformiad ar wahân. Mae'n gyfwerth ag un TGAU.

61. Mae'r mesur rhifedd yn cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer pob dysgwr unigol yn y garfan, gan ddefnyddio'r radd orau o naill ai'r cymhwyster TGAU mathemateg neu'r cymhwyster TGAU mathemateg - rhifedd a ddyfarnwyd i ddysgwr:

- TGAU mathemateg;
- TGAU mathemateg – rhifedd.

62. Gallwch hefyd gadarnhau pa gymwysterau sy'n cyfrif tuag at y mesur rhifedd ar gronfa ddata QiW o gymwysterau yn [www.qiw.wales](http://www.qiw.wales).

**Nodyn:** Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o'r cymwysterau sy'n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau. Gweler yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

## Y mesur gwyddoniaeth

63. Yn ogystal â bod yn un o slotiau craidd mesur Capió 9, mae gwyddoniaeth hefyd yn fesur perfformiad ar wahân. Mae'n gyfwerth ag un TGAU.

64. Mae'r mesur gwyddoniaeth yn cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer pob dysgwr unigol yn y garfan, gan ddefnyddio'r radd orau o'r cymwysterau TGAU gwyddoniaeth a ddyfarnwyd i ddysgwr. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfes cymwysterau TGAU gwyddoniaeth CBAC sydd ar gael i ddysgwyr:

- TGAU bioleg;
- TGAU cemeg;
- TGAU ffiseg;
- TGAU gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl);
- TGAU gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl);
- TGAU gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).

65. Gallwch hefyd gadarnhau pa gymwysterau sy'n cyfrif tuag at y mesur gwyddoniaeth ar gronfa ddata QiW o gymwysterau yn [www.qiw.wales](http://www.qiw.wales).

**Nodyn:** Os oes gan ddisgybl nifer o ddyfarniadau am un o'r cymwysterau sy'n gallu cyfrannu at y mesur hwn, dim ond canlyniad dyfarniad cyflawn cyntaf y cymhwyster hwnnw a ystyrir wrth nodi'r radd orau. Gweler yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

66. Os mai'r dyfarniad gwyddoniaeth dwbl lle dyfernir dwy radd yw canlyniad gwyddoniaeth gorau dysgwr, bydd y radd orau o'r ddwy radd yn cyfrif tuag at y mesur

gwyddoniaeth. Gall y radd arall gyfrif at y 'chwe chymhwyster arall' os yw'n un o ganlyniadau gorau eraill y dysgwr. Gweler yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

### **Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**

67. Mae mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer dyfarniadau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer pob dysgwr unigol yn y garfan, p'un a yw'n ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu'n ddyfarniad Cenedlaethol (Lefel 2):

- Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Bagloriaeth Cymru);
- Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru).

## Dadansoddi a Chyhoeddi


68. Er mwyn cefnogi hunanwerthusiad cadarn a thrylwyr byddwn yn newid y wybodaeth a roddwn i ysgolion yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS) er mwyn adlewyrchu mesurau perfformiad interim CA4. Ni ddylai'r wybodaeth hon gael ei hystyried ar wahân ac nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr o'r hyn y dylai ysgolion ei ystyried. Dylid ei hystyried ochr yn ochr â data'r ysgolion eu hunain (gan gynnwys, er enghraifft, cyfranogiad dysgwyr, nodweddion dysgwyr, cyrhaeddiad blaenorol, cefndir economaidd-gymdeithasol ac ati) i'w gwneud yn bosibl i werthusiad trylwyr o berfformiad gael ei gynnal. Mae data ond yn rhan fach o'r hyn y dylid ei ystyried wrth werthuso pa mor effeithiol yw ysgol.
69. Yn unol â'r penderfyniad i symud i ffwrdd o fesurau trothwy, ni fyddwn yn rhoi dadansoddiadau o ganran y dysgwyr sy'n cyflawni'r canlynol mwyach: pynciau unigol, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol, neu fesurau perfformiad trothwy, sef y Dangosydd Pwnc Craidd neu drothwy Lefel 2.
70. Yr eithriadau i hyn yw mesurau trothwy Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 – mae'r gofyniad ar ysgolion i osod targedau ar gyfer dysgwyr CA4 yn erbyn y mesurau hyn wedi aros mewn deddfwriaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/2019. Felly, er mwyn helpu ysgolion i fonitro cynnydd yn erbyn targedau o'r fath, byddwn yn rhoi data cyrhaeddiad Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1, yn ychwanegol at y data ar y mesurau interim newydd a amlinellir isod. Caiff dwy fersiwn o'r mesur Lefel 2 cynhwysol eu darparu: un lle gall cymwysterau Llenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg gyfrannu tuag at yr elfen llythrennedd ac un lle na allant gyfrannu.
71. Rydym am weld newid yn y ffordd y mae rhai ysgolion yn defnyddio data. Roedd data meincnodi cenedlaethol yn cael eu darparu'n flaenorol i alluogi cymhariaeth gydag ysgolion eraill mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol tebyg, ac i annog cydweithio a chyd-ddysgu rhwng yr ysgolion hynny a oedd yn wynebu heriau tebyg. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae data meincnodi wedi cael eu defnyddio wedi creu cystadleuaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn hytrach na'u hannog i gydweithio. Felly, ni chânt eu darparu mwyach.
72. Yn lle'r data hyn, byddwn yn darparu ystod o ddadansoddiadau newydd i'w gwneud yn bosibl i ysgolion edrych ar ddata o sawl safbwynt ac ystyried perfformiad pob dysgwr (noder bod y gwaith o ddylunio'r siartiau yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan wrthi'n cael ei gwblhau'n derfynol. Enghreifftiau yn unig yw'r isod):

**Traeanau** (*D.S. Dim ond yn y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan y caiff y dadansoddiadau hyn eu cyhoeddi*)

- Ar gyfer pob un o'r mesurau CA4 interim byddwn yn rhannu'r garfan ar gyfer pob ysgol yn draeanau, yn seiliedig ar gyrhaeddiad, gan ddangos y sgôr pwyntiau gyfartalog ar gyfer y traean uchaf, y traean canol a'r traean isaf o'r garfan. Caiff hyn ei ddangos yn erbyn deilliannau wedi'u modelu ar gyfer lefelau cymhwysedd i gael pryddau ysgol am ddim ac o'u cymharu â chyfartaleddau ar gyfer ysgolion eraill yng Nghymru ac o fewn teulu'r ysgol. Gweler enghraifft 1 am syniad o sut beth fyddai hyn.

- Bydd ysgolion hefyd yn gallu gweld canran y dysgwyr ym mhob traean cenedlaethol, gyda'r holl ddisgyblion, ac o gymharu ag ysgolion o fewn eu teulu. Gweler enghraifft 2 am syniad o sut beth fyddai hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn cyfrif.


**Enghraifft 1:** Dadansoddiadau yn dangos sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y traean uchaf, y traean canol a'r traean isaf o set dysgwyr yn erbyn prydau ysgol am ddim



■ Ysgol      ■ Pob Ysgol      ■ Cyfartaledd Teulu

■ Mae'r llinell atchweliad yn cynrychioli model perfformiad 2019 yn erbyn cymhwysedd am brydau ysgol am ddim. Mae pwyntiau sy'n is na'r llinell yn dynodi perfformiad is na'r model; mae pwyntiau sy'n uwch na'r llinell yn dynodi perfformiad sy'n uwch na'r model. Mae'r berthynas yn eithaf cryf a chyson o flwyddyn i flwyddyn, ond ni ddylid ystyried hyn yn darged ar gyfer perfformiad blynyddoedd yn y dyfodol.

**Enghraifft 2:** Dadansoddiadau yn dangos canran y dysgwyr ym mhob traean cenedlaethol o gymharu ag aelodau o'r teulu






**Dosbarthiadau graddau** (*D.S. Dim ond yn y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan y caiff y dadansoddiadau hyn eu cyhoeddi*)


- Byddwn yn rhoi dadansoddiadau o ganran y dysgwyr sy'n ennill pob gradd yn ôl pwnc craidd a di-graidd. Nid yw hyn yn ymwneud ag ystyried trothwyon ond, yn hytrach, ystyried yr ystod o gyrhaeddiad mewn meysydd pwnc gwahanol. Gweler Enghraifft 3 am syniad o sut beth fyddai hyn ar gyfer pob pwnc.

**Enghraifft 3:** Dadansoddiadau yn dangos canran y garfan sy'n ennill pob gradd yn ôl pwnc.



- Byddwn hefyd yn rhoi dadansoddiadau o ddsbarthiad graddau a enillwyd gan bob dysgwr dros amser. Gweler Enghraifft 4 am syniad o sut beth fyddai hyn.

**Enghraifft 4:** Dadansoddiadau yn dangos canran y garfan sy'n ennill pob gradd mewn pwnc dros dair blynedd



## Dadansoddiadau o sgoriau pwyntiau cyfartalog

- Ar gyfer pob mesur interim, byddwn yn rhoi nifer o ddadansoddiadau o'r sgoriau pwyntiau cyfartalog a enillwyd gan bob dysgwr ym mhob ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cymariaethau teulu, dadansoddiadau o'r rhywiau a thueddiadau o ran dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddwn hefyd yn rhoi dadansoddiadau o sgôr pwyntiau cyfartalog yr ysgol yn ôl pynciau craidd.
- Byddwn yn rhoi dadansoddiadau atchwel am bob mesur interim penodol.
- Er mwyn i ysgolion ystyried ehangder y cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr, byddwn yn rhoi data ar gyfran Sgôr Pwyntiau Capió 9 (interim) yr ysgol sy'n cynnwys cymwysterau nad ydynt yn rhai TGAU. Caiff hyn ei gyfrifo fel cyfran o 'chwe slot arall' (nad ydynt yn bwnc-benodol) y mesur Capió 9 o ystyried bod y tri slot pwnc-benodol yn rhai TGAU yn unig.
- Byddwn yn rhoi dadansoddiadau sy'n ychwanegu gwerth o'r mesurau interim yn seiliedig ar y model presennol.

## Dadansoddiadau eraill

- Byddwn yn parhau i roi dadansoddiadau o 5A\*-A, gan gynnwys dadansoddiadau atchweliad, gweddillion, cymariaethau teulu, gwahaniaethau rhwng y rhywiau a thueddiadau dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd hyn yn helpu i daflu goleuni ar gyrhaeddiad ar lefel uwch.
  - Byddwn yn parhau i roi dadansoddiadau o ganran y dysgwyr nad ydynt yn ennill unrhyw gymwysterau.
73. Bydd pob dadansoddiad newydd yn dangos canlyniadau presennol yr ysgol a thueddiadau perfformiad dros amser, ynghyd ag amrywiaeth o wybodaeth bwysig gyda'r nod o alluogi'r ysgol i wneud cymariaethau perthnasol yn eu cyd-destun. Bydd disgwyl i bob ysgol hunanasesu yn erbyn y sgoriau hyn, yn ogystal â'r sgoriau cyfartalog ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim, i helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cyfrif a'n bod ni'n deall ac yn gwerthfawrogi cynnydd pob disgybl yn y garfan.
74. Dylai ysgolion hefyd ystyried eu perfformiad o'i gymharu â pherfformiad lleol a chenedlaethol, yn ogystal â'r deilliannau i ysgolion o fewn eu 'teulu' ac mewn lleoliad economaidd-gymdeithasol tebyg iawn. Bydd hyn yn sicrhau y gall ysgolion ddysgu'n haws o lwyddiannau ysgolion eraill sy'n wynebu lefel weddol debyg o ran heriau.
75. Gall cymharu'ch canlyniadau â chanlyniadau ysgolion tebyg nodi cryfderau penodol a meysydd i'w datblygu h.y. meysydd y gellir eu gwella. Mae'n anochel y bydd gwahaniaethau go iawn (canran) mewn perfformiad yn amrywio o flwyddyn I flwyddyn. Felly, dylid canolbwyntio ar dueddiadau a gwahaniaethau cymharol mewn perfformiad er mwyn pennu cryfderau a meysydd sy'n destun pryder.

76. Gall archwilio'r dulliau dysgu ac addysgu a ddefnyddir mewn ysgolion sy'n perfformio'n dda ac sy'n debyg o ran cyd-destun nodi strategaethau a fyddai'n helpu ysgolion i wella.
77. Dylai ysgolion hefyd ystyried cyfranogiad, fel lleiafswm (o ran nifer y dysgwyr sy'n astudio pynciau), cofrestriadau a graddau a enillwyd yn y pynciau canlynol: Cymraeg Iaith (iaith gyntaf ac ail iaith), Saesneg Iaith, mathemateg, mathemateg - rhifedd a gwyddoniaeth sengl, dwbl a thriphlyg.
78. Nid yw data ar eu pen eu hunain yn dweud y cyfan. Yn hytrach, mae'n codi cwestiynau. Dim ond ysgolion all ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau, a hynny wrth ystyried data lefel perfformiad disgyblion gydag ystod eang o wybodaeth gyd-destunol a all effeithio ar ganlyniadau disgyblion. Mae'r setiau data yn yr adroddiadau'n deillio o ddata lefel disgyblion sydd eisoes yn cael ei gadw mewn canolfannau. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar eu dadansoddiadau mewn meysydd penodol ac ar gyfer disgyblion unigol wrth archwilio materion sylfaenol a awgrymir yn yr adroddiadau.
79. Mae rhai enghreifftiau o'r math o gwestiynau y dylai ysgolion eu gofyn wrth edrych ar y data a ddarperir yn cynnwys:
- Beth yw ein pynciau / dangosyddion perfformiad cryfach a gwannach?
  - Beth yw'r tueddiadau o ran pynciau / dangosyddion perfformiad?
  - A yw ein perfformiad yn well na'r disgwyl, yn ôl y disgwyl, neu'n is na'r disgwyl?
  - Pa mor wahanol oedd y deilliannau gwirioneddol o'u cymharu â'r rhai disgwyledig (ychydig, cryn dipyn)? Os oes gwahaniaeth amlwg - beth y gallai fod wedi achosi hyn?
  - A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y dangosydd / pwnc hwn ?
  - Sut mae perfformiad y bechgyn yn cymharu â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg?
  - Sut mae perfformiad y merched yn cymharu â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg?
  - Sut mae perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymharu â pherfformiad dysgwyr mewn ysgolion tebyg sy'n cael prydau ysgol am ddim?
  - A oes tueddiadau dros amser o ran perfformiad bechgyn / merched?
  - Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALL a Chymru? Beth yw'r tebygrwydd? Beth yw'r gwahaniaethau?
  - A oes rhai ysgolion craidd yn dangos canlyniadau uwch yn gyson?
  - Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol neu drefniadau cwricwlaidd wedi'u gweithredu yn yr ysgol?
  - A oes tueddiadau dros amser o ran dosbarthiadau graddau?
  - Sut mae dosbarthiadau graddau yn cymharu rhwng pynciau yn yr ysgol, ac rhwng ysgolion eraill o fewn y teulu?
  - A oes tueddiadau o ran perfformiad y traean isaf, y traean canol neu'r traean uchaf?
  - Sut mae'r sgoriau pwyntiau cyfartalog ar gyfer pob traean yn cymharu â'r sgoriau pwyntiau wedi'u modelu?
  - Pa gyfran o garfan yr ysgol sydd wedi'i chynnwys ym mhob traean cenedlaethol? Sut mae'r patrwm hwnnw yn cymharu o fewn y teulu a'r awdurdod lleol?

- Sut mae cyfran Sgôr Pwyntiau Capió 9 (interim) (y 'chwe slot arall' yn unig) sy'n cynnwys cymwysterau nad ydynt yn rhai TGAU yn cymharu â'r gyfran mewn ysgolion tebyg?
- Beth fyddai'r rhesymau dros hyn o bosibl?

80. Cofiwch nodi themâu dros amser ac ar draws grwpiau o ddisgyblion neu feysydd pwnc ac ystyried materion a all amlygu yn y graffiau mewn cyd-destun.

81. Dim ond rhan o'r stori a geir yn y pecyn data; dylai pob ysgol, gyda chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol, ei ystyried ochr yn ochr â thystiolaeth a gwybodaeth leol arall er mwyn llywio gwaith hunanwerthuso, pennu targedau a chynllunio mewn ysgolion. Daw canllawiau pellach gyda'r Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

## Atodiad A: Methodoleg ar gyfer cyfrifo'r Sgôr Pwyntiau Capiro 9 (interim)

Mae'r sgôr pwyntiau Capiro 9 yn cael ei chapio ar gyfanswm maint naw TGAU neu gymhwyster cyfatebol. Mae pob slot yn gyfwerth ag un TGAU. Mae tri slot pwnc-benodol, a gaiff eu llenwi gan ganlyniad gorau pob dysgwr o blith y cymwysterau cymwys mewn llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae dysgwyr nad ydynt yn pasio'r cymwysterau hyn yn cael sgôr o sero ar gyfer y slot hwnnw.

Gall y chwe slot arall gael eu llenwi gan ganlyniadau gorau eraill y dysgwr o blith yr holl gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol sydd wedi cael eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w cyflwyno yng Nghymru.

### Trosolwg o'r broses

Cyn cyfrifo'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer carfan, mae angen cyfrifo'r Sgôr Pwyntiau Capiro 9 (interim) ar gyfer pob dysgwr yn y garfan berthnasol.

Er mwyn dangos y broses, rydym wedi defnyddio dysgwr enghreifftiol sydd wedi ennill y cymwysterau a'r graddau a ddangosir yn Nhabl 1 (D.S. rhestrir **pob un** o ddyfarniadau'r dysgwr). Daw'r gwerthoedd a ddefnyddir ar gyfer mesurau perfformiad (cymwysterau cyfatebol i TGAU a phwyntiau) ar gyfer pob cymhwyster yn uniongyrchol o QiW.

**Tabl 1:** Enghraifft o ganlyniadau dysgwr

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Mathemateg (Cofrestrriad Mehefin 2018)	A*	58				
TGAU Saesneg (Cofrestrriad Mehefin 2018)	C	40				
TGAU Saesneg (Cofrestrriad Mehefin 2019)	A	52				
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	AB	98				
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40				
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58				
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26				
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44				
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52				
Diploma BTEC Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104				
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10				
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0				
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90				
Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio						0

### 1. Cam un – Nodi cofrestrriadau cynnar a hepgor arholiadau sydd wedi cael eu hailsefyll

1.1 O 2018/19, os bydd dysgwr ym mlwyddyn 11 wedi cael ei gofrestru i sefyll arholiad yn gynnar ac wedi ailsefyll yr arholiad hwnnw yn ddiweddarach, canlyniad y cofrestrriad cyntaf yw'r un a ddefnyddir ar gyfer mesurau perfformiad, ni waeth beth yw'r canlyniad. Gan fod y dysgwr hwn wedi cael ei gofrestru'n gynnar ar gyfer TGAU Saesneg laith ac wedi ennill gradd C, ac yna wedi ennill gradd A ar ôl ailsefyll yr arholiad, defnyddir y radd C. Rhoddir 0

pwyntiau ar gyfer yr arholiad a gafodd ei ailsefyll a chaiff ei ddiystyru ym mhob cam pellach. Mae hyn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol lle y byddai'r radd orau yn cael ei defnyddio.

**Tabl 2:** Nodi cofrestriadau cynnar a hepgor arholiadau sydd wedi cael eu hailsefyll

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Mathemateg (Cofrestriad Mehefin 2018)	A*	58				
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2018)	C	40				
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0				
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	AB	98				
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40				
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58				
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26				
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44				
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52				
BTEC Diploma Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104				
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10				
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0				
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90				
Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio						0

## **2. Cam dau – Nodi cymwysterau sy'n cyfrif yn y slotiau pwnc-benodol**

2.2 Mae'r Sgôr Pwyntiau Capio 9 (interim) yn cynnwys tri slot pwnc-benodol a gaiff eu llenwi gan ganlyniadau gorau pob dysgwr (cofrestriadau cyntaf yn unig) o blith y grŵp penodol o gymwysterau:

- **Slot llythrennedd** – y canlyniad gorau o blith TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Llenyddiaeth Gymraeg neu TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Llenyddiaeth Saesneg
- **Slot rhifedd** – y canlyniad gorau o blith TGAU mathemateg neu TGAU mathemateg - rhifedd
- **Slot gwyddoniaeth** – y canlyniad gorau o blith pynciau gwyddoniaeth TGAU (sydd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i ddyfarniadau yng nghyfres CBAC o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr): bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).

2.3 Mae'r cymwysterau a all gyfrif yn y slotiau pwnc-benodol hyn hefyd ar gael ar QiW. Gan ddefnyddio ein henghraifft, nodir canlyniadau gorau'r dysgwr (cofrestriadau cyntaf yn unig) ar gyfer pob slot pwnc-benodol yn Nhabl 3:

**Tabl 3:** Nodi ‘canlyniadau gorau’ cymwysterau sy’n cyfrif yn y slotiau pwnc-benodol

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi’u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Mathemateg (Cofrestriad Mehefin 2018)	A*	58				
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2018)	C	40				
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	AB	98				
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40				
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58				
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26				
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44				
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52				
BTEC Diploma Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104				
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10				
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0				
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90				
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0				
Cyfanswm pwyntiau wedi’u capio						0

### Slotiau Llythrennedd a Rhifedd

2.4 Mae’r slot llythrennedd wedi’i lenwi gan TGAU Saesneg – cofrestriad Mehefin 2018 (gradd C) ac mae’r slot rhifedd wedi’i lenwi gan TGAU Mathemateg (gradd A\*). Noder, er y gallai cymwyster mathemateg - rhifedd gyfrif tuag at y slot rhifedd, nad gradd orau’r dysgwr mewn rhifedd ydyw yn yr achos hwn. Felly caiff ei ystyried wrth nodi ‘chwe chanlyniad arall gorau’ y dysgwr (cam tri isod).

### Slot Gwyddoniaeth

2.5 Ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau gwyddoniaeth TGAU, caiff y radd orau ei chyfrif. Fodd bynnag, os mai dyfarniad dwbl yw’r cymhwyster, yna caiff y cymhwyster ei rannu’n ddau gymhwyster ar wahân, gyda’r naill a’r llall yn cael gradd ar wahân. Yn ein henghraifft, mae’r dysgwr wedi cael y canlyniad canlynol yn y cymhwyster gwyddoniaeth dwbl:

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	AB	98

Felly, caiff y cymhwyster ei rannu’n ddau gymhwyster ar wahân, gyda’r naill a’r llall yn cael gradd ar wahân:

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	A	52
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46

Fel canlyniad TGAU gwyddoniaeth gorau’r dysgwr, mae’r slot gwyddoniaeth wedi’i lenwi gan y radd A (wedi’i thywyllu) a chaiff y radd B arall ei hystyried wrth nodi ‘chwe chanlyniad arall’ gorau’r dysgwr (cam tri isod). Yn Nhabl 1 noder bod y cymhwyster Gwyddoniaeth dwbl wedi’i dywyllu â llinellau gan mai dim ond un o’r ddwy radd a fydd yn cyfrif tuag at y slot gwyddoniaeth.

### 3. Cam tri – nodi'r cymwysterau sy'n cyfrif yn y slotiau 'eraill'

Caiff chwe chymhwyster arall gorau'r dysgwr eu cyfrifo fel a ganlyn:

#### 3.1 Cam 1 – Cyfrifo maint cymhwyster

3.1.1 Mae cymwysterau yn cael eu cymharu â maint TGAU er mwyn pennu dangosydd maint (h.y. sawl TGAU y mae cymhwyster yn gyferth â nhw). Er enghraifft, mae TGAU dyfarniad dwbl galwedigaethol ddwywaith maint TGAU felly byddai ganddo ddangosydd maint o 2. Byddai gan gwrs byr TGAU ddangosydd maint o 0.5.

3.1.2 Pennir y gwerthoedd hyn drwy ddefnyddio'r maes 'cyfraniad maint' yn y tabl 'Gwerthoedd Sgôr Pwyntiau' yn QiW (fel y dangosir isod).

Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr							
Graddfa Graddio	Mesurau Cam Allweddol 4						Mesurau Ôl-16
	Cyfraniad Maint <sup>?</sup>	Sgôr Pwyntiau wedi'u capio <sup>?</sup>	Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Llythrennedd <sup>?</sup>	Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Rhifedd Mathemateg <sup>?</sup>	Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Mathemateg <sup>?</sup>	Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr - Gwyddoniaeth <sup>?</sup>	Sgôr Pwyntiau <sup>?</sup>
A*	1	58	Na	1e	Na	0 o 2	58

3.1.3 Yn ein henghraifft, rydym ond yn defnyddio'r cymwysterau yn y celloedd heb eu tywyllu fel y dangosir yn Nhabl 4 (h.y. nid ydym wedi cynnwys y cymwysterau sy'n cyfrannu at y tri slot pwnc-benodol) ac yna rydym yn cyfrifo maint pob un.

**Tabl 4:** Ychwanegu dangosyddion maint

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronrus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46	1			
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40	1			
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58	1			
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26	0.5			
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44	2			
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52	1			
BTEC Diploma Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104	2			
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10	1			
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0	1			
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90	2			
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0	1			
<b>Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio</b>						<b>0</b>

\*Mae'r cymhwyster TGAU gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) wedi cael ei rannu'n hanner fel y nodir ar gam dau, gan adael dim ond y radd isaf (gradd B) i'w hystyried yn ystod y cam hwn. Gan fod y cymhwyster wedi cael ei rannu'n hanner, mae'n gyferth ag un, nid dau gymhwyster TGAU.



### 3.2 Cam 2 – Cyfrifo'r pwyntiau safonedig ar gyfer cymhwysterau (a diystyru)

3.2.1 Pwyntiau safonedig yw'r pwyntiau ar gyfer cymhwyster sy'n cael eu cyfrifo'n gymesur â maint sy'n cyfateb i un TGAU. Rydym yn cyfrifo pwyntiau safonedig er mwyn cael pennu pa gymhwysterau yw'r rhai 'gorau'. Mae'r pwyntiau safonedig yn ystyried maint gwirioneddol y cymhwyster (a bennir ar Gam 1) a nifer y pwyntiau a roddir i'r radd a enillwyd ar gyfer y cymhwyster (yn unol â QiW).

3.2.2 Caiff pwyntiau safonedig eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\text{Pwyntiau safonedig} = (\text{cyfanswm y pwyntiau ar gyfer y cymhwyster}) / (\text{dangosydd maint})$$

3.2.3 Os na chafodd y dysgwr lwyddiant mewn cymhwyster penodol (e.e. gradd U neu X ar gyfer TGAU, F ar gyfer BTEC), yna mae'r pwyntiau safonedig ar gyfer y cymhwyster wedi'u pennu'n ddim.

3.2.4 Yn ein henhraifft, caiff pwyntiau safonedig eu cyfrifo fel y dangosir yn Nhabl 5:

**Tabl 5:** Cyfrifo pwyntiau safonedig

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronrus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46	1	46		
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40	1	40		
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58	1	58		
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26	0.5	52		
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44	2	22		
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52	1	52		
BTEC Diploma Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104	2	52		
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10	1	10		
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0	1	0		
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90	2	45		
TGAU Saesneg (Cofrestrriad Mehefin 2019)	A	0	1	0		
<b>Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio</b>						<b>0</b>

**Nodyn ar y rheolau diystyru:** Os bydd dau gymhwyster yn rhannu'r un cod diystyru, yna y cymhwyster sydd â'r pwyntiau safonedig uchaf yw'r un a ddefnyddir a chaiff y llall ei ddileu o bob cyfrifiad o hyn ymlaen. Mae codau diystyru, ochr yn ochr â rhestr o gymhwysterau sy'n rhannu'r cod diystyru hwnnw, ar gael yn y wybodaeth a ddelir ar wefan QiW ar gyfer pob cymhwyster unigol.

### 3.3 Cam 3 – Cyfrifo maint cronol

3.3.1 Ar ôl cyfrifo'r pwyntiau safonedig ar gyfer pob cymhwyster rydym yn:

- Trefnu'r cymhwysterau mewn trefn ddisgynnol yn ôl pwyntiau safonedig
- Cyfrifo cyfanswm y maint cronol ar gyfer pob cymhwyster drwy gyfansymio'r golofn maint wrth inni fynd i lawr y rhesi.

3.3.2 Yn ein henhraifft, cyfrifir maint cronol fel y dangosir yn Nhabl 6:

**Tabl 6:** Cyfrifo maint cronol

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58	1	58	1	
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26	0.5	52	1.5	
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52	1	52	2.5	
BTEC Diploma Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104	2	52	4.5	
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46	1	46	5.5	
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90	2	45	7.5	
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40	1	40	8.5	
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44	2	22	10.5	
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10	1	10	11.5	
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0	1	0	12.5	
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0	1	0	13.5	
<b>Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio</b>						<b>0</b>

### 3.4 Cam 4 – Nodi pa rai yw'r 'chwe chymhwyster arall' gorau a'u sgoriau pwyntiau

3.4.1 Rydym yn defnyddio'r golofn maint cronol ac yn ystyried pob cymhwyster nes bod y maint cronol  $\geq 6$ . Caiff y rhain eu dangos mewn llwyd yn Nhabl 6 isod.

3.4.2 Lle mae'r cymhwyster olaf a ychwanegir yn gwneud maint cronol o fwy na chwech a dim ond cyfran o'r cymhwyster hwnnw sydd ei hangen, bydd angen inni addasu'r cymhwyster perthnasol. Yn ein henghraifft, byddai Safon UG mathemateg bellach yn gwneud maint cronol o 7.5 (ond dim ond 0.5 sydd ei angen i gyrraedd y maint cronol gofynnol o 6). Felly bydd angen inni addasu'r pwyntiau ar gyfer y cymhwyster hwnnw drwy gymryd y gyfran ofynnol o'i bwyntiau drwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\left( \frac{(6 - (\text{maint cronol blaenorol}))}{(6 - (5.5))} \right) \div 2 * (\text{pwyntiau}) = \text{Pwyntiau wedi'u haddasu}$$

$$\left( \frac{(6 - (5.5))}{(6 - (5.5))} \right) \div 2 * 90 = 22.5$$

**Tabl 7:** Cyfansymio'r sgôr pwyntiau

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58	1	58	1	58
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26	0.5	52	1.5	26
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52	1	52	2.5	52
BTEC Diploma Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104	2	52	4.5	104
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46	1	46	5.5	46
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90	2	45	7.5	$(0.5/2)*90=22.5$
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40	1	40	8.5	0
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44	2	22	10.5	0
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10	1	10	11.5	0
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0	1	0	12.5	0
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0	1	0	13.5	0
<b>Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio</b>						<b>308.5</b>

3.4.3 Felly, cyfanswm y pwyntiau ar gyfer y 'chwe chymhwyster arall' gorau (nad ydynt yn bwnc-benodol) yw  $58+26+52+104+46+22.5 = \underline{\underline{308.5}}$ .

### 3.5 Cam 5 – Cyfrifo cyfanswm y Sgôr Pwyntiau Capió 9 (interim)

3.5.1 Yn olaf, bydd angen inni gyfrifo cyfanswm y pwyntiau ar gyfer mesur Capió 9 drwy adio'r pwyntiau ar gyfer y tri slot pwnc-benodol at y pwyntiau ar gyfer y 'chwe slot arall'.

3.5.2 Dengys Tabl 8 gyfanswm y pwyntiau ar gyfer y cymwysterau sy'n llenwi pob un o slotiau'r Sgôr Pwyntiau Capió 9:

- Daw cyfanswm y pwyntiau ar gyfer y cymwysterau sy'n llenwi'r 'chwe slot arall' (fel y'u cadarnhawyd ar Gam 4) o QiW ar gyfer pob cymhwyster perthnasol a'r radd gyfatebol a enillwyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
- Yna, byddwn yn adio'r pwyntiau ar gyfer y tri chymhwyster pwnc-benodol (cyfanswm o 150 o bwyntiau) at bwyntiau'r 'chwe chymhwyster arall' gorau (cyfanswm o 308.5 o bwyntiau).
- Felly, mae'r dysgwr yn ein henghraifft wedi cael Sgôr Pwyntiau Capió 9 o 150 + 308.5 = **458.5 o bwyntiau**.

**Tabl 8:** Cyfansymio'r sgôr pwyntiau ar gyfer slotiau penodol a slotiau nad ydynt yn benodol

Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau	Maint	Pwyntiau wedi'u safoni	Maint cronnus	Cyfanswm pwyntiau
TGAU Mathemateg (Cofrestriad Mehefin 2018)	A*	58				58
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2018)	C	40				40
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	A	98				52
TGAU Cyfrifiadureg	A*	58	1	58	1	58
TGAU Dylunio a Thechnoleg (Cwrs Byr)	A	26	0.5	52	1.5	26
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol	A	52	1	52	2.5	52
BTEC Diploma Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio	Rhagoriaeth	104	2	52	4.5	104
TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)	B	46	1	46	5.5	46
Mathemateg Pellach Lefel AG	D	90	2	45	7.5	(0.5/2)*90=22.5
TGAU Mathemateg - Rhifedd	C	40	1	40	8.5	0
TGAU Busnes Cymhwysol (Dyfarniad Dwbl)	F a F	44	2	22	10.5	0
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Lladin	1	10	1	10	11.5	0
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	Llwyddo Cenedlaethol	0	1	0	12.5	0
TGAU Saesneg (Cofrestriad Mehefin 2019)	A	0	1	0	13.5	0
<b>Cyfanswm pwyntiau wedi'u capio</b>						<b>458.5</b>

## Atodiad B: Cwestiynau Cyffredin

### 1) I ba garfan blwyddyn y mae'r mesurau perfformiad interim yn gymwys?

Byddwn yn adrodd ynghylch y mesurau dros dro newydd Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yn hydref 2019 o ran disgyblion a fydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn yr haf blaenorol, h.y. Blwyddyn 11 sy'n gorffen yn haf 2019.

### 2) Sut y gallaf gadarnhau p'un a fydd cymhwyster yn cyfrif yn y mesurau perfformiad interim?

Gallwch gadarnhau p'un a all cymhwyster unigol gyfrif drwy chwilio am rif y cymhwyster neu rif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru ar [QiW](#) ac edrych ar y dudalen 'Gwybodaeth am Berfformiad a'r Cwricwlwm' am y cymhwyster.

Ar gyfer pob blwyddyn adrodd, bydd QiW yn dangos y sgôr pwyntiau a roddir i bob gradd, a hefyd p'un a yw'r cymhwyster yn cyfrif tuag at y slotiau/mesurau pwnc-benodol (llythrennedd, rhifedd neu wyddoniaeth) neu fesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Bydd hefyd yn dangos y cod diystyru perthnasol ar gyfer y cymhwyster.

Mae QiW hefyd yn cynnwys amrywiaeth o weithrediadau 'chwilio manwl' sy'n eich galluogi i chwilio am bob cymhwyster sy'n cyfrannu at bob mesur.

### 3) A fydd llenyddiaeth yn cyfrif yn y mesurau interim?

Bydd, gall dyfarniad cyntaf cymwysterau Llenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg gyfrannu tuag at slot llythrennedd mesur Capió 9 (interim) a'r mesur ar wahân ar gyfer llythrennedd os mai hwn yw cymhwyster gorau'r dysgwr o blith dyfarniad cyntaf Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg.

Fel arall, gallant gyfrannu at 'chwe slot arall' mesur Capió 9 (interim) os ydynt yn un o gymwysterau eraill gorau'r dysgwr.

### 4) A oes cap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol a all gyfrif yn y sgôr pwyntiau Capió 9 ddiwygiedig?

Nid oes unrhyw gap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol a all gyfrif tuag at 'chwe slot arall' y sgôr pwyntiau Capió 9 (h.y. y rhai y tu allan i'r slotiau llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth).

Fodd bynnag, bydd y cyfraniad mwyaf y gall unrhyw gymhwyster unigol nad yw'n gymhwyster TGAU (heblaw am gymwysterau UG a Safon Uwch) ei wneud tuag at unrhyw un o'r mesurau yn parhau'n gyfwerth â dau gymhwyster TGAU.

### 5) A yw rheol 'y cofrestriad cyntaf sy'n cyfrif' yn gymwys i'r mesurau perfformiad interim?

Ydy, o haf 2019 dim ond dyfarniad cyntaf cymhwyster cyflawn fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad, p'un a yw'r dysgwr wedi ennill gwell gradd ar gyfer yr un cymhwyster yn ddiweddarach ai peidio. Ceir esboniad pellach yn yr enghraifft yn [Atodiad A](#).

**6) Sut mae rheol ‘y cofrestriad cyntaf sy’n cyfrif’ yn gymwys i slotiau pwnc-benodol mesur Capió 9 (interim), sy’n defnyddio’r canlyniad gorau o blith nifer o gymwysterau penodol?**

Bydd rheol ‘y cofrestriad cyntaf sy’n cyfrif’ yn gymwys wrth bennu canlyniad gorau pob dysgwr a fydd yn cyfrannu at y slotiau pwnc-benodol.

Bydd y slot/mesur llythrennedd yn defnyddio canlyniad gorau pob dysgwr, ni wnaeth pryd y cafodd pob cymhwyster ei ddyfarnu, o blith:

- dyfarniad cyntaf Cymraeg Iaith
- dyfarniad cyntaf Saesneg Iaith
- dyfarniad cyntaf Llenyddiaeth Gymraeg
- dyfarniad cyntaf Llenyddiaeth Saesneg

Yn yr un modd, bydd y slot/mesur rhifedd yn defnyddio canlyniad gorau pob dysgwr, ni waeth pryd y cafodd pob cymhwyster ei ddyfarnu, o blith

- dyfarniad cyntaf Mathemateg
- dyfarniad cyntaf Mathemateg - rhifedd

**7) Sut mae gwyddoniaeth dwbl yn cyfrif ym mesur Capió 9 (interim) o ystyried mai dim ond un slot gwyddoniaeth sydd?**

Gallai dyfarniad dwbl mewn gwyddoniaeth (TGAU) gyfrif yn y slot gwyddoniaeth pwnc-benodol a’r ‘chwe slot arall’ nad ydynt yn benodol ym mesur Capió 9 (interim).

Er enghraifft, os enillodd dysgwr radd C/D:

- byddai’r canlyniadau, yn y bôn, yn cael eu rhannu’n C ac yn D;
- byddai’r radd C (gwerth 40 o bwyntiau) yn cyfrif yn y slot gwyddoniaeth penodol;
- gallai’r radd D (gwerth 34 o bwyntiau) gyfrif yn y ‘chwe slot arall’ nad ydynt yn benodol, os yw’n un o ganlyniadau eraill gorau’r dysgwr.


Gweler yr enghraifft lawn yn [Atodiad A](#).

**8) A yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad interim?**

Nac ydynt, nid yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu cynnwys ym mesurau perfformiad CA4 yn unol â’r argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad o Gymwysterau i ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru 2012. Er gwaethaf hyn, gall y cymwysterau hyn fod yn opsiwn priodol i rai dysgwyr cyn 16.

## 9) A yw dyfarniad cyfansawdd Bagloriaeth Cymru yn cyfrif yn y mesurau perfformiad interim?

Mae pwyntiau perfformiad yn cael eu dyrannu i bob cymhwyster unigol sy'n gallu cyfrif tuag at y dyfarniad Bagloriaeth Cymru cyfansawdd h.y. y Dystysgrif Her Sgiliau, y cymwysterau TGAU a'r cymwysterau ategol sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru yn unol â'r radd a enillwyd, a gall pob un o'r rhain gyfrif tuag at y mesurau interim fel a ganlyn:



**Tystysgrif Her Sgiliau:** Gall hwn yn gyfrif yn 'chwe slot arall' Capio 9 (interim) os yw'n un o gymwysterau eraill gorau'r dysgwr. Gall hefyd gyfrif ym mesur ar wahân Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

**Cymwysterau TGAU (Mathemateg neu Fathemateg - Rhifedd a Chymraeg Iaith neu Saesneg Iaith):** Os mai nhw yw cymwysterau rhifedd a llythrennedd gorau'r dysgwr, byddant yn cyfrif yn slotiau rhifedd a/neu llythrennedd Capio 9 a mesurau ar wahân rhifedd a/neu llythrennedd. Fel arall, gallant gyfrif yn 'chwe slot arall' Capio 9 os ydynt yn un o gymwysterau eraill gorau'r dysgwr.

**Cymwysterau ategol** - os mai cymwysterau llythrennedd, rhifedd neu wyddoniaeth (TGAU yn unig) gorau'r dysgwr yw'r rhain, gallant gyfrif tuag at slotiau llythrennedd, rhifedd a/neu wyddoniaeth cyfatebol Capio 9 a'r mesurau ar wahân cysylltiedig. Fel arall, gallant gyfrif yn 'chwe slot arall' Capio 9 os ydynt yn un o gymwysterau eraill gorau'r dysgwr.

Ffynhonnell: CBAC

## 10) Safodd un o'm dysgwyr gymhwyster ym Mlwyddyn 9. A fydd yn cyfrif yn y mesurau perfformiad?

Bydd, bydd dyfarniadau a enillwyd gan ddysgwr mewn blwyddyn flaenorol yn parhau i gyfrif pan fydd y dysgwr yn cyrraedd carfan Blwyddyn 11 sy'n cael ei mesur.

## 11) Sut mae'r rheolau diystyru yn gweithio?

Bydd dau gymhwyster yn destun y rheolau diystyru os ydynt yn perthyn i'r un teulu diystyru a bod ganddynt yr un cod diystyru. Mae'r teulu diystyru yn disgrifio natur y cymhwyster; er enghraifft, a yw'n gymhwyster TGAU neu'n fath o gymhwyster galwedigaethol.

Mae codau diystyru ar gyfer cymwysterau unigol ar gael yn [www.qiw.wales](http://www.qiw.wales) o dan 'Gwybodaeth am Berfformiad a'r Cwricwlwm'..

Lle mae gan gymwysterau sawl opsiwn o ran meysydd llafur, efallai na fydd y gwahanol opsiynau o ran maes llafur yn destun rheolau diystyru – mae codau diystyru ar gyfer yr amrywiadau unigol o ran meysydd llafur ar gael ar y daenlen ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/cymwysterau-sawl-amrywiaeth-o-ran-meysydd-llafur-chodau-diystyru?>.

## 12) Sut mae cymwysterau TGAU 9-1 yn cyfrif yn y mesurau perfformiad interim?

Yng Nghymru, bydd TGAU 9-1 yn ymddangos yn rhan o'r wybodaeth am berfformiad pan gaiff ei gymeradwyo neu ei ddynodi i'w gyflwyno. Disgwylir y bydd hyn ond yn effeithio Cymru mewn pynciau lle mae'r garfan yn isel lle nad oes manyleb ar wahân ar gyfer Cymru,

neu lle bydd disgyblion mewn ysgolion annibynnol yn dewis dilyn pwnc TGAU gyda bwrdd arall, ac nid CBAC.

Dangosir y pwyntiau perfformiad ar gyfer cymwysterau TGAU 9-1 isod:

Strwythur Graddio	Pwyntiau
9	58
8	55
7	52
6	48
5	44
4	40
3	32
2	24
1	16
U	0

Yn fras, byddai'r un gyfradd o fyfyrwyr yn cael graddau 1, 4 a 7 ac uwch ag a fyddai wedi cael graddau G, C ac A ac uwch o dan y system A\*-G.

### 13) Beth sy'n digwydd i'r gofyniadau i osod targedau i ysgolion ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4?

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad](#) yn ddiweddar ar ddiwygio'r gofynion statudol i osod targedau i ysgolion er mwyn bod yn gyson â'r trefniadau perfformiad interim yn CA4. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i wneud y canlynol:

- dileu'r gofyniad i osod targedau mesur-benodol: byddai hyn yn dileu'r gofyniad statudol i gyrrff llywodraethu osod targedau mewn perthynas â chanran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni: - i) trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (h.y. trothwy cynwysedig Lefel 2) a ii) trothwy Lefel 1
- cynyddu nifer y targedau amhenodol sydd i'w gosod, o dri i chwech: byddai hyn yn cynyddu nifer y targedau amhenodol y mae gofyn i gyrrff llywodraethu eu gosod eisoes ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn CA4 yn seiliedig ar hunanwerthusiad
- gwneud darpariaeth drosiannol sy'n galluogi'r corff llywodraethu i osod targedau dros dro a thargedau terfynol ar gyfer 2019 i 2020 (y flwyddyn bontio) nad ydynt yn seiliedig ar darged a osodwyd mewn blynyddoedd ysgol blaenorol.

Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael [yma](#). Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau â'r cynigion fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori drwy ddiwygiadau i'r Rheoliadau ynglŷn â Gosod Targedau<sup>1</sup>. Bwriedir i'r rheoliadau diwygiedig ddod i rym ar 1 Medi 2019.

<sup>1</sup> [Reoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb \(Cymru\) 2011](#)

## **Atodiad C: Adnoddau Eraill**

### **Cymwysterau yng Nghymru**

Cronfa ddata yw Cymwysterau yng Nghymru (QiW), sydd dan berchnogaeth a rheolaeth Cymwysterau Cymru, y rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau, a'r system gymwysterau genedlaethol. Mae QiW yn cynnwys manylion yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi ar gyfer addysgu yng Nghymru i ddysgwyr dan 19 oed, ac eithrio addysg uwch.

Bydd unrhyw gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi gan Cymwysterau Cymru yn gymwys i gael arian gan Awdurdod Lleol neu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian hwn ar gyfer y darparwr addysg, nid y dysgwr.

Mae QiW hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a'r cwricwlwm ar gyfer pob cymhwyster, sydd ar gael o dan yr adran 'Gwybodaeth am Berfformiad a Chwricwlwm' sy'n gysylltiedig â phob adran yn QiW. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r adran hon.

### **Cymwysterau yng Nghymru: canllawiau i ddefnyddwyr ar wybodaeth am berfformiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg byr o'r gweithrediadau sydd ar gael yn QiW, a sut i chwilio am gymhwyster yn seiliedig ar y meini prawf a ddewisir. Mae hefyd yn dangos sut mae'r Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r wybodaeth am berfformiad ar dudalen 'gwybodaeth am berfformiad a'r cwricwlwm' cymwysterau.

### **Mesur perfformiad ysgol: gwerthoedd cyfraniad cymwysterau**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r sail resymegol dros gyfrifo gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi i'w cyflwyno i ddysgwyr yng Nghymru gan y corff rheoleiddio, Cymwysterau Cymru, o 2017 ymlaen. Gallwch weld y cymwysterau hyn ar wefan Cymwysterau yng Nghymru.

### **Bwletinau Adrodd ar Berfformiad Ysgolion**

Mae'r Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a'r Consortia ar faterion sy'n ymwneud ag adrodd ar berfformiad ysgolion drwy'r bwletinau hyn. Rydym yn defnyddio'r bwletinau hyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiâu adrodd ar berfformiad ac i egluro unrhyw faterion cymhleth.

### **Cofnodi perfformiad ysgol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4: cwestiynau cyffredin am gofrestru'n gynnar**

Bwriedir i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon egluro'r polisi newydd a sut y bydd yn effeithio ar brosesau ysgolion o ran cofrestru ar gyfer arholiadau.

### **Cymwysterau â sawl amrywiaeth o ran meysydd llafur a chodau diystyru**

Rhestr o godau diystyru ar gyfer cymhwysterau ag opsiynau maes llafur lluosog.

### **Trefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd)**

Mae'r ddogfen hon, a'r ffeithluniau amgaeedig, yn nodi crynodeb o'r trefniadau drafft sy'n rhan o'r rhaglen diwygio addysg sylweddol sy'n cael ei chynnal yng Nghymru.



### **Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed: adroddiad terfynol ac argymhellion**

Adolygiad o'n system gymwysterau ac argymhellion ar sut i'w gwella (Tachwedd 2012). Gwnaed nifer o newidiadau cynharach i fesurau perfformiad er mwyn gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

### **Fy Ysgol Leol**

Gwefan sydd wedi'i chynllunio i roi mynediad agored at ddata ysgolion i rieni a phawb arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

### **Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso ysgol**

Mae'r pecynnau yma wedi eu cynhyrchu er mwyn helpu athrawon ddeall a defnyddio'r dadansoddiadau data y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar gyfer hunanwerthuso.

### **Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion**

Canllaw i lywodraethwyr ysgolion ar rôl a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion.

### **Ymgynghoriad ynghylch newidiadau i'r gofynion i osod targedau i ysgolion**

Ymgynghoriad ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r gofynion presennol i osod targedau i ysgolion ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 11 yng Nhyfnod Allweddol 4. Bwriedir i'r newidiadau sicrhau bod y gofynion i osod targedau i ysgolion yn gyson â'r newidiadau interim i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4.